

Cymraeg yw Taith ein Taith



Ysgol Gymraeg Trelyn

Polisi Codi Tâl / Charging & Remission Policy

Statws / Status: Statudol / Statutory

Cyflwyniad / Introduction:

Mae'r holl addysg yn ystod oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgaredd a wneir fel rhan o Gwricwlwm i Gymru, ac eithrio rhywfaint o wersi cerddoriaeth unigol neu grŵp bach.

All education during school hours is free. We do not charge for any activity undertaken as part of Curriculum for Wales, with the exception of some individual or small-group music tuition.

Cyfraniadau Gwirfoddol / Voluntary Contributions:

Wrth drefnu teithiau ysgol neu ymweliadau i gyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu at y gost. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os na fyddwn yn derbyn digon o gyfraniadau gwirfoddol, efallai y byddwn yn canslo taith. Os bydd taith yn mynd yn ei blaen, gall gynnwys plant nad yw eu rhieni wedi talu unrhyw gyfraniad. Nid ydym yn trin y plant hyn yn wahanol i unrhyw blant eraill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn gymryd rhan mewn trip ysgol neu ddigwyddiad ond yn anfodlon neu'n methu â gwneud cyfraniad gwirfoddol, rydym yn caniatáu i'r plentyn gymryd rhan lawn yn y daith neu'r gweithgaredd. Weithiau mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol i gefnogi'r ymweliad. Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau ychwanegol, a drefnir gan yr ysgol, sydd angen cyfraniadau gwirfoddol gan rieni.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr:

- ymweliadau ag amgueddfeydd
- gweithgareddau chwaraeon sydd angen costau cludiant
- gweithgareddau antur awyr agored
- ymweliadau â neu gan gwmni theatr
- digwyddiadau cerddorol.

When organising school trips or visits to enrich the curriculum and the educational experience of the children, the school invites parents to contribute to the cost. All contributions are voluntary. If we do not receive sufficient voluntary contributions, we may cancel a trip. If a trip goes ahead, it may include children whose parents have not paid any contribution. We do not treat these children differently from any others. If a parent wishes their child to take part in a school trip or event but is unwilling or unable to make a voluntary contribution, we do allow the child to participate fully in the trip or activity. Sometimes the school pays additional costs in order to support the visit. The following is a list of additional activities, organised by the school, which require voluntary contributions from parents.

This list is not exhaustive:

- visits to museums
- sporting activities which require transport expenses
- outdoor adventure activities
- visits to or by a theatre company
- musical events.


Hyfforddiant Cerddorol / Music Tuition:

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu grŵp bach, gan fod hwn yn ychwanegol i weithgareddau'r cwricwlwm sydd yn digwydd ar lefel dosbarth, ac nid yn rhan o Gwricwlwm i Gymru. Addysgir gwersi unigol neu grwp bach gan athrawon cerdd peripatetig ac rydym yn codi tâl am y gwersi hyn. Rhennir gwybodaeth am y gwersi offerynnol ychwanegol yma gyda rhieni yn flynyddol.

All children study music as part of the normal school curriculum. We do not charge for this. There is a charge however for individual or small-group music tuition, since this is an additional activity, and not part of Curriculum for Wales music lessons that take place at class level. These individual or small group lessons are taught by peripatetic music teachers - we make a charge for these lessons. Parents receive information about additional music tuition annually.

Signature of Chair of Governors.....

Signature of Head Teacher 

Reviewed: 09/07/2024